**Y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai**

—

**Local Government and Housing Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddTai@senedd.cymru
SeneddTai/SeneddTai
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddHousing@senedd.wales
senedd.wales/SeneddHousing
0300 200 6565

Russell George AS
Cadeirydd
Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

22 Ionawr 2025

Annwyl Russell,

Lansio Ymchwiliad: Rôl awdurdodau lleol o ran cefnogi'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty

Yn ein cyfarfod ar 5 Rhagfyr 2024, cytunodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar y cylch gorchwyl ar gyfer ein hymchwiliad i rôl awdurdodau lleol o ran cefnogi'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty.

Nod y cylch gorchwyl yw ystyried:

- effeithiolrwydd awdurdodau lleol (gan ganolbwyntio'n bennaf ar wasanaethau cymdeithasol) o ran cefnogi'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty mewn modd diogel, amserol ac effeithlon;
- graddfa'r sefyllfa bresennol o ran achosion o oedi wrth drosglwyddo gofal o'r ysbyty (mewn modd y gellir ei briodoli i rôl awdurdodau lleol), gan gynnwys hyd cyffredinol yr achosion o oedi;
- y prif rwystrau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu o ran hwyluso yn effeithiol y broses o ryddhau cleifion sydd ag anghenion gofal a chymorth, gan gynnwys:
    - capasiti gwasanaethau gofal cymdeithasol a phrinder staff yn y gweithlu;
    - achosion o aros am asesiadau gofal (a materion eraill sy'n ymwneud ag asesu);
    - heriau o ran trefnu lleoliadau mewn cartrefi gofal neu becynnau gofal cartref; ac
    - achosion o anghytuno neu rwystrau deddfwriaethol sy'n effeithio ar benderfyniadau ynghylch rhyddhau cleifion;

- yr amrywiadau sy'n bodoli ledled Cymru o ran arferion parthed rhyddhau cleifion o'r ysbyty, a'r effaith ar ddarpariaeth awdurdodau lleol.  Sut i wella cysondeb, gan gynnwys drwy nodi arferion gorau a dulliau arloesol y gellid eu mabwysiadu'n ehangach;
- asesiad o'r prosesau a'r gweithdrefnau rhyddhau sy'n bodoli ar lefel llywodraeth leol a chenedlaethol ar hyn o bryd, gan gynnwys trefniadau gweithio mewn partneriaeth rhwng y GIG ac awdurdodau lleol, strategaethau ar gyfer cynyddu capasiti cymunedol, ac effeithiolrwydd y cymorth a ddarperir gan Lywodraeth Cymru.

Gwyddom i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol gynnal ymchwiliad yn 2022 i ryddhau cleifion o'r ysbyty ac effaith hynny ar y llif cleifion drwy ysbytai. Rydym am adeiladu ar y gwaith hwn a chanolbwyntio ar rôl awdurdodau lleol o ran cefnogi'r broses o ryddhau cleifion o'r ysbyty.

Yn ddiweddar, fe wnaethom gyhoeddi galwad am dystiolaeth ysgrifenedig a byddwn yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar yn ddiweddarach y tymor hwn. Rydym hefyd yn bwriadu cynnal digwyddiad rhanddeiliaid ym mis Mawrth. Mae croeso i Aelodau'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon fod yn bresennol.

Rwyf wedi gofyn i'm clerc sicrhau bod eich clerc chi'n gwybod sut y mae'r ymchwiliad yn datblygu a bydd mewn cysylltiad gyda rhagor o wybodaeth.

Yn gywir,

John

John Griffiths AS

Cadeirydd

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.